# Hyfforddiant ar Ofal Cartref - Canllawiau

1. Rhagarweiniad....1

2. Hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru (PRTL)....2

3. Cynnwys yr adnoddau....3

Adran 1. Darparu canlyniadau 3....3
Pennod 1.1 - Deall canlyniadau....4
Pennod 1.2 – Cofnodi a monitro canlyniadau....4
Pennod 1.3 - Cysylltu â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol....4

Adran 2. Cynnal sgyrsiau da....5
Pennod 2 - Sgyrsiau 'beth sy'n bwysig'....5

Adran 3. Cadw cydbwysedd rhwng risg, hawliau a chyfrifoldebau....6
Pennod 3 – Cadw cydbwysedd rhwng risg, hawliau a chyfrifoldebau....6

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r adnodd dysgu hwn wedi'i ddatblygu i'r gweithlu gofal a chymorth yn y cartref er mwyn cefnogi dull o weithio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol. Mae wedi'i ddylunio i reolwyr gofal cymdeithasol a darparwyr hyfforddiant ei ddefnyddio fel pecyn hyfforddi, neu yn ystod ymarfer bob dydd; er enghraifft fel rhan o'r broses arolygu neu mewn trafodaethau yn ystod cyfarfodydd tîm.

Gellir defnyddio'r adnodd mewn unrhyw drefn ac os ydych wedi datblygu adnoddau eich hun gallwch ddefnyddio'r rhain fel atodiad i'ch adnoddau dysgu a datblygu eich hun.

Mae tri prif sector yn yr adnoddau:

1. Sicrhau canlyniadau

2. Cynnal sgyrsiau da

3. Cadw cydbwysedd rhwng risg, hawliau a chyfrifoldebau

Mae gan bob adran benodau neu adnoddau ychwanegol sy'n ystyried y pynciau mewn mwy o fanylder.

## 2. Defnyddio'r adnoddau

Nid yw'r adnoddau wedi'u llunio i gael eu darparu mewn unrhyw drefn benodol. Gallwch ddewis unrhyw adran, pennod, sleid unigol neu fideo gyda'ch staff neu gallwch ddewis dilyn yr hyfforddiant mewn trefn benodol, fel sy'n cael ei nodi yn y canllawiau hyn.

Bydd pob pennod yn cynnig rhywfaint o awgrymiadau ar ddefnyddio'r adnodd ond ni ddylid eu hystyried yn gyfarwyddiadau. Hefyd, mae rhywfaint o gwestiynau'n cael eu hawgrymu y gellir eu trafod mewn cyfarfodydd tîm, sesiynau goruchwylio neu gyfarfodydd cefnogaeth gan gymheiriaid. Hefyd, gallwch ddefnyddio'r rhain i ddatblygu cwestiynau gwahanol er mwyn ymateb i anghenion eich sefydliad.

Gellir defnyddio'r adnoddau mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

• Arolygu: er mwyn cefnogi ymarfer adlewyrchol gallwch ddewis un neu ddau o'r sleidiau mwyaf perthnasol er mwyn helpu i gynnal sgwrs
• Cyfarfodydd tîm: defnyddiwch fideos, straeon neu rhai o'r sleidiau gyda chwestiynau i bobl ystyried a thrafod
• Hyfforddiant: mae'r anoddau hyn yn barod i'w defnyddio; gallwch hefyd ychwanegu adnoddau eich hun i gefnogi addysgu staff
• Cefnogaeth gan gymheiriaid: yn yr un modd â'r cyfarfodydd tîm gall reolwyr dewis sleidiau penodol i staff ystyried a thrafod yn fanwl
• Fframwaith Sefydlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan: gellir defnyddio'r adnoddau i gefnogi staff sy'n ymgymryd â'r Fframwaith Sefydlu.

Fe welwch fod pob PowerPoint yn cynnwys ei ganlyniad dysgu ei hun. Canllawiau'n unig yw'r rhain er mwyn rhoi rhywfaint o eglurder i chi am yr hyn y gellir ei ddysgu.

Mae sylwadau ychwanegol yn yr adran nodiadau o dan rhai o'r sleidiau. Bydd y sylwadau'n rhoi rhagor o wybodaeth neu ganllawiau, neu byddan nhw'n cynnig awgrymiadau gwahanol ar gyfer rhai o'r gweithgareddau/ ymarferion. Os yw sleid yn cynnwys animeiddiad, bydd yn cael ei esbonio yn y nodiadau.

Mae pobl wedi dweud wrthyn ni eu bod am gael offer hyblyg er mwyn helpu i ddatblygu'r gweithlu. Maen nhw hefyd wedi dweud bod cael amrywiaeth eang o adnoddau (fel ymarferion, fideos, straeon a chyflwyniadau) yn bwysig iddyny. Gall yr offer helpu staff i gael trafodaethau myfyriol mewn cyfarfodydd tîm neu sesiynau goruchwylio.

### Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Gall y staff sydd wrthi'n cwblhau'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddefnyddio'r adnodd hwn i gefnogi eu dysgu. Mae adran tri o'r canllaw hwn yn rhoi manylion penodol o sut gall yr adnodd hwn gefnogi'r Fframwaith Sefydlu.

### Hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru (PRTL)

Gallwch ddefnyddio'r adnoddau hyn fel rhan o'u hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru. Am fwy o wybodaeth ar PRTL gwelwch ein tudalennau cofrestru ar gofalcymdeithasol.cymru

Rydym hefyd wedi datblygu canllaw i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus
gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/datblygiad-proffesiynol-parhaus-dpp

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

## 3. Cynnwys yr adnoddau

Ar gyfer pob adran rydyn ni wedi dangos crynodeb o'r adnoddau mewn tabl, gan nodi pwy yw'r gynulleidfa, sut i'w defnyddio a phenodau cysylltiedig.

### Adran 1: Sicrhau canlyniadau

Bydd yr adran hon yn edrych ar beth yw canlyniadau personol, pam maen nhw'n bwysig a sut mae cofnodi a monitro canlyniadau personol.

Mae pedair pennod yn y categori hwn.

- Pennod 1.1 - Deall Canlyniadau
- Pennod 1.2 – Cofnodi a monitro canlyniadau
- Pennod 1.3 - Cysylltu â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

Gall yr adran hon gefnogi Canlyniadau Dysgu'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel a ganlyn:

- 1.10 Newid a chyfnodau pontio mewn iechyd a gofal cymdeithasol
- 3.1 Llesiant
- 3.10 Gofal diwedd oes

| **Pennod 1.1 - Deall canlyniadau**<br><br>Canlyniad Dysgu – Diffinio canlyniadau ac egluro'r gwahaniaeth rhwng canlyniadau personol a gwasanaethau, prosesau a chanlyniadau<br><br>Adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Math o adnodd | Crynodeb | Ar gyfer | Defnydd a awgrymir | Penodau cysylltiedig |
| PowerPoint | Egluro beth yw canlyniadau personol a sut maen nhw'n wahanol i ganlyniadau gwasanaethau | Gweithwyr<br>Rheolwyr<br>Arweinwyr | Fel hyfforddiant annibynnol neu gallwch ddefnyddio sleidiau unigol er mwyn eu trafod mewn cyfarfodydd tîm neu mewn grwpiau trafod cymheiriaid, gan groesgyfeirio at dermau eraill y gallwch eu defnyddio | |
| Fideos ar gael | Enghraifft o waith sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol | Gweithwyr<br>Rheolwyr<br>Arweinwyr | Sesiynau goruchwylio, cyfarfodydd tîm neu sesiynau cefnogaeth gan gymheiriaid | 2 |
| Fideos ar gael | Stori am gynnig hyblygrwydd i unigolion | | | |

| **Pennod 1.2 – Cofnodi a monitro canlyniadau**<br><br>Canlyniad Dysgu – Egluro pam mae'n bwysig i gofnodi canlyniadau personol a ffyrdd o fonitro canlyniadau unigolyn neu gofalwr wrth iddynt gyflawni eu canlyniadau.<br><br>Adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Math o adnodd | Crynodeb | Ar gyfer | Defnydd a awgrymir | Penodau cysylltiedig |
| PowerPoint | Enghraifft o raddfeydd | Gweithwyr | Offer i'w trafod mewn cyfarfodydd tîm, sesiynau goruchwylio ac ati | |

| **Pennod 1.3 - Cysylltu â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol**<br><br>Canlyniad Dysgu – Trafod sut gall sicrhau canlyniadau gefnogi'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol<br><br>Adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Math o adnodd | Crynodeb | Ar gyfer | Defnydd a awgrymir | Penodau cysylltiedig |
| PowerPoint | Rhoi trosolwg o'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol | Gweithwyr | Hyfforddiant annibynnol<br>Gellir defnyddio rhai sleidiau fel rhan o drafodaethau grŵp mewn cyfarfodydd tîm | |

## Adran 2: Cynnal sgyrsiau da

Mae'r adran hon yn edrych ar y grefft o gyfathrebu, gan ddiffinio'r sgwrs 'beth sy'n bwysig', pwysigrwydd llesiant ac yn rhoi awgrymiadau ar gyfer cynnal sgyrsiau da.

Gall yr adran hon gefnogi Canlyniadau Dysgu'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel a ganlyn:

- 1.3 Dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- 1.6 Perthnasoedd cadarnhaol a ffiniau proffesiynol
- 1.7 Cyfathrebu
- 1.9 Dulliau cadarnhaol o leihau arferion cyfyngol mewn iechyd a gofal cymdeithasol
- 1.11 Myfyrio
- 5.2 Gweithio mewn partneriaeth

<table>
<tr><td colspan="5">Pennod 2 - Sgyrsiau 'beth sy'n bwysig'<br><br>Canlyniadau dysgu – Deall beth rydyn ni'n golygu wrth sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' a sut i ddefnyddio sgiliau cyfathrebu<br><br>Adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd:</td></tr>
<tr><td>Math o adnodd</td><td>Crynodeb</td><td>Ar gyfer</td><td>Defnydd a awgrymir</td><td>Penodau cysylltiedig</td></tr>
<tr><td>PowerPoint</td><td>Trafod ac egluro pwrpas y sgwrs 'beth sy'n bwysig'</td><td>Gweithwyr</td><td>Hyfforddiant annibynnol<br><br>Sleidiau i'w defnyddio mewn cyfarfodydd tîm, sesiynau goruchwylio neu gyfarfodydd cefnogaeth gan gymheiriaid.</td><td></td></tr>
<tr><td>Fideos ar gael</td><td>Sut mae'r sgwrs 'beth sy'n bwysig' yn cael ei defnyddio i benderfynu ar yr hyn sy'n bwysig i unigolion</td><td>Gweithwyr<br>Rheolwyr</td><td>Straeon i'w defnyddio mewn sesiynau goruchwylio, cyfarfodydd tîm neu gyfarfodydd cefnogaeth gan gymheiriaid.</td><td>1.1</td></tr>
</table>

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

## Adran 3: Cadw cydbwysedd rhwng risg, hawliau a chyfrifoldebau

Bydd yr adran hon yn edrych ar risgiau a sut gallwn ni feddwl am gadw cydbwysedd rhwng risg, hawliau a chyfrifoldebau yn ein ymarfer.

Gall yr adran hon gefnogi Canlyniadau Dysgu'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel a ganlyn:

- 1.5 Agwedd gadarnhaol at gymryd risg

**Pennod 3 – Cadw cydbwysedd rhwng risg, hawliau a chyfrifoldebau**

Canlyniadau Dysgu - Deall beth rydyn ni'n golygu wrth risg a sut mae hwn yn allweddol wrth hybu hawliau a grymuso pobl.

Adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd:

| Math o adnodd | Crynodeb | Ar gyfer | Defnydd a awgrymir | Penodau cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|
| PowerPoint | Ystyried beth rydyn ni'n golygu wrth risg a beth rydyn ni'n golygu wrth cadw cydbwysedd rhwng risg, hawliau a chyfrifoldebau, ynghŷd â straeon sydd wedi dod o ymarfer | Gweithiwr<br>Rheolwr<br>Arweinwyr | Hyfforddiant annibynnol, sleidiau i'w defnyddio mewn cyfarfodydd tîm | |